# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 15 Medi 2014** |
| Amser: | **14.30 – 16.06** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/cfd2f6f8-400a-4f80-97c0-dbc5652792eb?autostart=True

## Cofnodion Cryno:

MeetingTitle

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Melding AC (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw AC**<br>**Suzy Davies AC**<br>**Eluned Parrott AC**<br>**Simon Thomas AC** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **P Gareth Williams (Clerc)**<br>**Ruth Hatton (Dirprwy Glerc)**<br>**Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Stephen Boyce (Ymchwilydd)**<br>**Alys Thomas (Ymchwilydd)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Julie James AC. Dirprwyodd Mick Antoniw AC ar ei rhan.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

2.1 CLA427 – Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014

2.2 CLA428 – Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014

2.3 CLA429 – Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Dosbarthiad Rhanbarthau Talu Dros Dro) (Cymru) 2014

2.4 CLA430 – Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2014

2.5 CLA432 – Rheoliadau Addysg (Sefydliadau Ewropeaidd) a Chymorth i Fyfyrwyr (Cymru) (Dirymu) 2014

2.6 CLA434 – Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2014

2.7 CLA435 – Rheoliadau Adroddiad y Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) (Diwygio) 2014

2.8 CLA436 – Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2014

2.9 CLA437 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2014

2.10 CLA438 – Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) (Diwygio) 2014

2.11 CLA439 – Rheoliadau Diddymu Corfforaethau Addysg Bellach (Cyhoeddi Cynigion a Chyrff Rhagnodedig) (Cymru) 2014

2.12 CLA441 – Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2014

Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon arnynt.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

3.1 CLA440 - Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2014

3.2 CLA433 - Rheoliadau Cynnwys Sylffwr Tanwyddau Hylifol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2014

3.3 CLA431 - Rheoliadau Clefydau Moch 2014

Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Llythyr gan Brif Weinidog Cymru ynghylch canllawiau dwyochrog

Cytunodd y Pwyllgor i drafod y papur hwn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

4.2 Gohebiaeth ynghylch cynnig gan y Comisiwn Ewropeaidd ar atal rhwydi drifft COM(2014)265

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Comisiynydd i gael rhagor o wybodaeth am y cyfarfod y cyfeirir ato yn llythyr y Comisiynydd.

4.3 Gohebiaeth gan y Llywydd

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

4.4 Datganiad ysgrifenedig ynghylch Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Nododd y Pwyllgor y Datganiad a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn gofyn am fanylion pellach am yr amserlen ar gyfer gweithredu'r is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o Ddeddf 2014.

4.5 Llythyr gan Brif Weinidog Cymru ynghylch yr ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Cytunodd y Pwyllgor ar y dull gweithredu a awgrymwyd yn llythyr y Prif Weinidog a chytunodd i ofyn am ddadl yn y Cyfarfod Llawn ym mis Tachwedd 2014.

4.6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Dadreoleiddio: Diwygiadau mewn perthynas â Phedolwyr a Chytundebau Cartref-Ysgol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

4.7 Datganiad gan Brif Weinidog Cymru: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol, Gorffennaf 2014

Nododd y Pwyllgor y Datganiad.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Adroddiad Drafft ar y Bil Addysg Uwch (Cymru)

5.2 Ymchwiliad i Ddeddfu - y wybodaeth ddiweddaraf

5.3 Blaenraglen waith